heddwch
gwanwyn 2000
rhifyn 22
am ddim (neu gyfraniad)
cylchgrawn CND Cymru

# 'Tarfu ar yr heddwch'



graphic: Brian Kavanagh (Hartford Catholic Worker)

## tu fewn:

**"Mab Star Wars": ail-lansio trychineb**
**Kirsty Williams AC yn cefnogi Cymru Ddi-niwclear**
**Trident: golwg o'r Alban**
**Trident Ploughshares: gweithredu ac achosion llys**

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

# Fylingdales: targed trawiad cyntaf yn Swydd Efrog

Yn ôl swyddogion y Weinyddiaeth Amddiffyn, mae safle radar rhybudd cynnar Fylingdales yn cael ei ailwampio i amddiffyn tir mawr yr UD rhag ymosodiad taflegrau. Mae radar Fylingdales yn swydd Efrog yn un o bum gorsaf radar rhybudd-cynnar yr UD sy'n rhan o'r system Amddiffyn Taflegrau Niwclear, ac fe'i uwchraddiwyd ychydig flynyddoedd yn ôl. Erbyn hyn, mae'n bosib mai Fylingdales yw'r unig orsaf radar â gallu i weithredu mewn 360 gradd (cylch llawn). Mae hynny, ynghyd â'i leoliad strategol, yn ei wneud yn bwysig dros ben i ymdrechion yr UD i amddiffyn yn erbyn taflegrau balistig (BMD). Mae cynlluniau'r o'r fath yn tanseilio'r cytundeb Gwrth-Daflegrau Balistig, ac yn ôl trawsysgrifiad o Ddarllediad Radio Rhyngwladol swyddogol y Kremlin, "yn creu anghydbwysedd yn y sefyllfa rhwng dau begwn cynghrair Môr Iwerydd, gan ddadsyfydlogi ein system strategol". Mae llywodraethau Ewrop yn poeni hefyd, a nid heb reswm. Mewn unrhyw wrthdaro posibl, **byddai Fylingdales yn darged trawiad cyntaf i unrhyw elyn.**

Mae angen i'r mudiad heddwch Prydeinig ddeffro, gan y gallai ymgyrchu yn erbyn unrhyw foderneiddio pellach yn Fylingdales fod yn ffordd effeithiol iawn o wrthwynebu ymdrechion BMD yr Unol Daleithau. Gallai BMD ddileu'r holl gamau a gymerwyd hyd yma tuag at ddiarfogi niwclear. Fel y dengys yr erthygl a ganlyn, mae hon yn sefyllfa sensitif iawn i Brydain, a gyda digon o wrthwynebiad mewnol, mae rhai'n credu y byddai modd atal defnydd yr UD o Fylingdales.

*Diolch o galon i Bob Aldridge*



*'Cadfridog Hoskins,' sdim ots da fi os mai chi sy'n rhedeg ein cynllun amddiffyn Star Wars. Rhaid i chi wisgo lifrai iawn.'*

# Dyw Amddiffyn Taflegrau ddim yn amddiffyn neb

Mae bygythiad hyll a chostus "mab Star Wars", ymgais yr UD i amddiffyn â thaflegrau, yn dod i'r amlwg. Mae'n bygwth ysgwyd y diogelwch byd-eang bregus sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r UD yn bygwth gosod system Amddiffyn Taflegrau Genedlaethol yn ei lle i "amddiffyn yn erbyn taflegrau annormal". Dywedant nad yw'n fwriad ganddynt fygwth Rwsia a Tsieina, ond mae'r ddwy wlad yn gwrthwynebu'r cynllun, gan gredu y bydd yn sbarduno ras arfau newydd fyd-eang a thanseilio eu gallu niwclear. Bydd Amddiffyn Taflegrau yn ddi-os yn tramgwyddo Cytundeb Gwrth-Daflegrau Balistig 1972, cytundeb dwyochrog rhwng Rwsia a'r UD, ac os syrthia'r cytundeb diarfogi pwysig hwn, gallai arwain at ddymchwel cytundebau rhyngwladol eraill a thrafodaeth ar ddiarfogi niwclear.

Mae'r llywodraeth Brydeinig yn bwriadu cefnogi tarian daflegrau'r UD drwy ganiatáu iddynt ddefnyddio Menwith Hill yng nghogledd swydd Efrog fel gorsaf drosglwyddo ddaearol ar gyfer gwybodaeth o loerennau ar draws Ewrop a chyn-wladwriaethau'r Undeb Sofietaidd. Mae'r Ymgyrch dros Atebolrwydd Gwersylloedd Americanaidd wedi ceisio gwys gan yr Uchel Lys mewn ymgais i atal datblygiadau pellach yn Menwith Hill. Byddai'r UD yn hoffi defnyddio Fylingdales, yng ngogledd swydd Efrog hefyd, fel rhan o rwydwaith sensor daearol ar gyfer Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol, Hyd yn hyn, dyw'r llywodraeth Brydeinig dim wedi dweud a fyddai'n cefnogi defnyddio Fylingdales i'r diben hwn, ond uwchraddiwyd y safle ym 1992 i allu bod yn rhan o system 'star wars' yr UD. Mae gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd wedi bod yn llai tawedog. Dywedodd yr Arlywydd Jacqes Chirac, *"Rhaid i ni osgoi unrhyw gwestiynu ar y Cytundeb ABM a allai ymyrryd â'r cydbwysedd strategol ac arwain at ras arfau niwclear newydd"*.

Ym mis Ionawr eleni, dioddefodd y Pentagon rwystr difrifol pan fethodd prawf atal taflegrau arall. Roedd y taflegryn dan brawf i fod i fwrw taflegryn balistig a lansiwyd o California a'i atal rhag cyrraedd ei nod, ond methodd. Mae amlwg fod yna broblemau technolegol anferth ac mae'n bosib na chânt eu datrys byth, ac mae methiant y prawf ym mis Ionawr 2000 wedi gwneud yr amserlen ar gyfer penderfynu yn ansicr. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd yr Arlywydd Clinton yn penderfynu ynglyn â gweithredu'r cynllun Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol ym mis Mehefin 2000 ac os gwna, y tebygrwydd yw y bydd yn caniatáu iddo fynd yn ei flaen.

*Rachel Julian CND Swydd Efrog*

**heddweithredu:** Gallwch dwyn pwysau mewn nifer o ffyrdd:

1. Sgrifennwch/ffacsiwch yr Arlywydd Clinton a gofyn iddo i beidio â gweithredu cynllun Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol yr UD. (Yr Arlywydd Clinton, The White House, Washington, UDA. Ffacs: +1-202-456-2461)
2. Sgrifennwch at Tony Blair yn gofyn iddo gefnogi arweinwyr Ewropeaidd eraill a mynegu pryder am gynlluniau'r UD. (Cyf: tudalen 8)
3. Sgrifennwch at y Weinyddiaeth Amddiffyn neu at eich AS eich hun i ddweud na ddylent roi caniatâd i'r UD i ddefnyddio Fylingdales ar gyfer Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol (MoD, Main Building, Whitehall, Llundain SW1A 2HB).

Dylai'r llywodraeth Brydeinig fod yn ymdrechu i gymell yr UD rhag bwrw ymlaen ag Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol gan y bydd mor niweidiol. Disgrifiodd y Pentagon fethiant y prawf taflegrau fel 'anffawd'. Y gwir anffawd fydd caniatáu i Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol i fynd yn ei flaen gan daflu'r byd i mewn i ryfel oer newydd a ras arfau yn y gofod. Am fwy o wybodaeth, gweler gwefan CND Swydd Efrog: http://www.gn.apc.org/cndyorks. Neu cysyllter ag CND Swydd Efrog, 22 Edmund Street, Bradford, Gorllewin Swydd Efrog BD5 0BH Tel: 01274 730795. Ffacs: 01274 414413 e-bost: cndyorks@gn.apc.org

## Kirsty Williams, Aelod Cynulliad Brycheiniog a Maesyfed, yn cefnogi Cymru Ddi-niwclear

Galwyd sylw at y posibilrwydd y gellir cadw llongau tanfor niwclear-arfog Prydain yn Aberdaugleddau gan CND Llandrindod mewn cyfarfod diweddar gydag AC Rhyddfrydol Democrataidd Brycheiniog a Maesyfed, Kirsty Williams. Eglurwyd y gellid barnu Trident yn anghyfreithlon o dan gyfraith yr Alban, ac Aberdaugleddau yn sir Benfro fyddai'r prif ddewis amgen o harbwr dwr-dwfn a allai gynnig cartref i longau tanfor Trident Prydain. Mae hyn yn dilyn dyfarniad pwysig Hydref 1999 gan y Siryf Margaret Gimblett yn Llys Siryf Greenock a gyfarwyddodd y rheithgor i gael tri gweithredydd Trident Ploughshares 2000 yn ddieuog oherwydd ei bod wedi dod i'r casgliad fod cyfiawnhad dros weithred y tri i geisio diarfogi llongau tanfon niwclear-arfog Prydain. Mae'r Arglwydd Adfocad wedi atgyfeirio dyfarniad Margaret Gimblett at yr Uchel Lys am eglurhad cyfreithiol.

Cytunodd Kirsty Williams osod 'Datganiad o Farn' ger bron y Cynulliad er mwyn i'r aelodau alw am ymchwiliad i statws cyfreithiol Trident o dan y gyfraith yng Nghymru. Pwysleisiodd Ysgrifennydd CND Llandrindod, Sarah Isaacs, gan fod ymbelydredd o arfau niwclear yn effeithio ar ddinasyddion diniwed a hyd yn oed wledydd diniwed, fod y fath arfau yn anghyfreithlon o dan y gyfraith ryngwladol, ac na ellir caniatáu lleoli Trident yng Nghymru. Mynegodd Kirsty Williams gefnogaeth gref hefyd i bryderon y grwp am y domen wastraff niwclear arfaethedig yn Nhrecwn yn sir Benfro, gan ychwnegu ei bod yn erbyn unrhyw safleoedd niwclear pellach yng Nghymru. Cytunodd i osod ail Ddatganiad o Farn ger bron y Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi dyheadau'r Gymru Ddi-Niwclear a sefydlwyd yn wreiddiol gan gynghorau lleol ledled Cymru ym mis Chwefror 1982.

heddweithredu: cysylltwch ag CND Llandrindod (Sarah Isaacs, Bridgend Cottage, Llangamarch, Powys LD4 4ED (01591) 620561 am destun llawn y ddau Ddatganiad Barn hyn. Gofynnwch i'ch AC i gefnogi'r Datganiad yma. (Eich AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA.)

## Y delfrydol a'r posibl Henry Richard (1812-1888)



Tan yn ddiweddar iawn, ychydig a wyddwn am Henry Richard. Yna, darllenais ddau bamffled ardderchog: Peace and Power. Henry Richard, A Radical for our time gan Gwyn Alf Williams oedd y naill, a'r llall oedd Henry Richard: Apostle of Peace 1812-1888 gan Ieuan Gwynedd Jones. Cyhoeddwyd y ddau ym 1988. Yn olaf, deuthum ar draws ysgrif saith-tudalen ddiddorol iawn ond, ysywaeth heb enw'r awdur na dyddiad arni.

Roeddwn wedi fy nghyfareddu. Roedd gwaith Richard fel Ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch am bron hanner can mlynedd, fel Aelod Seneddol Merthyr Tudful, fel Gweinidog yr Efengyl, ac fel 'dehonglydd rhwng Cymru a Lloegr' yn wirioneddol ryfeddol. Daeth yn amlwg i mi nad ydym yn dysgu hanner digon gan hanes nac yn gwybod digon am gymeriadau mawr y mudiad heddwch. Rhaid bod Richard yn ddyn syfrdanol. Llwyddodd i gadw holl wahanol elfennau'r mudiad heddwch a heddychwyr yn gweithio gyda'i gilydd. Gwyddai sut i gyfuno'r delfrydol a'r posibl.

Iddo ef mae'r diolch, i raddau helaeth, am sefydlu Llys presennol y Byd yn y pen draw. Bu bron iddo lwyddo i lywio penderfyniad drwy Dy'r Cyffredin a fyddai wedi golygu na ellid cychwyn unrhyw ryfel heb ganiatâd y senedd.

Yna, diddordeb mwy personol. Dysgais iddo draddodi un o'r areithiau cyntaf yn Finsbury Park, nid nepell o ddrws fy nhy. Mae wedi ei gladdu mewn bedd dadfeiliedig, ym mynwent Abney Park lle mae fy hen datcu yntau'n gorffwys, ryw filltir o'm cartref presennol.

Ym Mlwyddyn Diwylliant Heddwch UNESCO eleni, tybiais mai priodol fyddai i ni, yn San Steffan, ar ei benblwydd, anrhydeddu'r Cymro mawr hwn o'r 19fed ganrif y gallem ddysgu cymaint ganddo o hyd. *Bruce Kent*

**heddweithredu:** dewch i'r cyfarfod eich hun a/neu gofynnwch i'ch AS gefnogi'r cyfarfod ar y 3ydd Ebrill am 7pm yn Nhy'r Arglwyddi, Llundain. Croeso i bawb. Am fanylion pellach, gweler 'Dyddiadau Dyddiadur'.

## Don Arnott - Teyrnged

Aeth Don Arnott, cyn-ymgynghorydd i'r Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol, yn aelod selog o'r mudiad gwrth-niwclear. Yn un o sylfaenwyr PANDORA (Pobl yn erbyn Gwastraff Niwclear mewn Ardaloedd Cefn Gwlad) yn 1979, rhoddodd ddadansoddiad deallusol i'n hofnau a dur yn asgwrn cefn yr ymgyrch i atal drilio gyda'r bwriad o gladdu gwastraff ymbelydrol lefel-uchel yng Nghymru.

Rhoddodd Don gyngor helaeth dros ben ar beryglon Sizewell B - a wedyn tystiolaeth fanwl dros ben i ymchwiliad Hinkley Point C ar beryglon y dyluniad PWR. Eglurodd Don wrth bobl Cymru fod y ddamwain yn Chernobyl wedi cael ei hachosi gan ffrwydrad atomig, ac mor annigonol oedd y monitro ar ymbelydredd o Chernobyl.

Gallai daflu goleuni defnyddiol a difyr iawn ar weithrediad y sefydliad gwyddonol. Roedd bob amser yn werth gwrando ar gyngor Don. Teimlai'n angerddol fod yn rhaid i'r mudiad gwrth-niwclear gael ei ffeithiau'n iawn: "Ni all defnydd adeiladol o bwer ffynnu ar ddogn o agweddau negyddol a hyrddiadau o emosiwn yn ei britho. Mae angen cyfraniadau positif, wedi eu dadlau yn ymosodol." Mawr yw ein colled ar ôl Don Arnott.

*Hugh Richards*


Trident - golwg o'r Alban

# Breuddwydion Celyddon

Dwi'n cofio'n glir rywbryd yn gynnar ym mis Ionawr 1984 sleifio allan o swyddfa CND yr Alban yn Sauchiehall Street liw nos i daflu sawl llond bocs yn cynnwys miloedd o fathodynnau heb eu gwerthu a nawr heb werth, yn datgan yn falch "NUCLEAR FREE IN 83". Wel, fe gedwais i un o'r bathodynnau ac mae'r un sticer yn addurno'r drych yn y stafell molchi. Atgof llesol a darostyngol o ffolineb y gorffennol wrth i mi eillio bob bore. Mae hiwmor yn ein cynnal yn y byd gwallgof yma, ac mae'r gallu i chwerthin am eich pen eich hun yn hanfodol mewn ymgyrchu dros heddwch. Y foeswers, wrth gwrs, yw peidio byth â gosod terfyn amser. Dwi'n cofio'r digwyddiad yma oherwydd, ar yr olwg gyntaf, efallai fy mod i fel pe bawn am wneud rhywbeth tebyg wrth sgrifennu hyn o eiriau. Oherwydd, er nad ydw i, bid siwr, yn mynd i bennu terfyn amser, dwi'n gwir gredu ein bod yn byw drwy ddigwyddiadau mawr a'n bod ar drothwy newidiadau hanesyddol. Mae'r amserau yn newid, go iawn, ac i ymgyrchwyr dros heddwch, ym maes y gyfraith yn fwy nag unman arall. Dyma'r prif heyrn sy yn y tân cyfreithiol ar hyn o bryd.

## Cyfreithiol

Yn gyntal, gogoniant Greenock a'r ddedfryd ddieuog. Ar yr 28ain Ionawr, cawsom y newyddion fod yr Arglwydd Adfocat wedi danfon dedfryd y Siryf Gimblett i'r Uchel Lys yng Nghaeredin am atgyfeiriad barnwrol. Mynychais yr achos yn Greenock bron bob dydd, a gwn beth oedd safon y dystiolaeth a gyflwynwyd ar ran y diffynyddion. Gwn hefyd na chyflwynodd yr erlyniaeth yr un tyst i ddadlau o blaid cyfreithlondeb Trident - dim ond cyflwyno tystion i ffeithiau nad oedd yn destun dadl. Yn wyneb safon yr amddiffyniad a'r erlyniad, ac ar ôl gweld tegwch diduedd amlwg y Siryf, prin y gallaf ddychymygu sut y gallai unrhyw arolwg gonest wneud unrhywbeth ond dod i'r un casgliadau â hi. Felly, o safbwynt canlyniad yr arolwg, fy marn gyhoeddus yw optimistiaeth bwyllog; yn llai ffurfiol, dwi'n tueddu i ddweud fod y diwedd wrth law, ac y bydd rhaid i Trident fynd, a mynd yn fuan. Fodd bynnag ... dwi'n dal i gofio'r bathodynnau!




gweithred, ac apeliais i'r Uchel Lys ar sail y faith na wnaed cyfiawnder am i'r ynad wrthod gwrando ar fy amddiffyniad o dan y gyfraith ryngwladol. Mae'r Uchel Lys wedi cytuno i wrando ar fy apêl ac rwy'n disgwyl dyddiad ar gyfer y gwrandawiad. Yn y cyswllt hwn eto mae fy nhwrnai, John Mayer - y gwr a arweiniodd yr amddiffyniad mor athrylithgar yn Greenock - yn bendant obeithiol.

Achos sifil fyddai hwn - mater gwahanol iawn i'r holl achosion troseddol hyd yn hyn - a gallai fod yn arswydus o gostus. Felly ymgais ddigon petrus yw hon ar hyn o bryd.

## Gwleidyddol

Heb law am y materion cyfreithiol hyn, mae newidiadau mawr ar droed yn y byd gwleidyddol, yn enwedig gyda Senedd newydd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, er na all y rhain ddeddfu ar amddiffyn. Fodd bynnag, does dim i'w hatal rhag trafod Trident, a dim rheswm pam na ddylent fynegi barn y bobl. Mae gan Senedd yr Alban grwp CND traws-bleidiol, o dan arweiniad cadarn Dorothy Grace Elder.

Mae CND yr Alban wedi bod yn rhedeg ymgyrch "Datganiad Faslane" ers peth amser bellach, sef ymgais i gael cefnogwyr i arwyddo cerdyn yn mynnu gan eu cynrychiolwyr y dylid dileu arfau niwclear o'r Alban. Y bwriad yw cyflwyno blychau yn cynnwys miloedd o'r rhain i Senedd yr Alban ar adeg briodol (rhywbeth yn debyg i Ymgyrch yr Eirlysiau yn erbyn dryllau yn sgîl y lladdfa yn Dunblane). Rydym wedi canfod llawer o gefnogaeth gan bobl pan gânt gyfle i arwyddo. Ein problem ni yw dosbarthu'r cardiau'n ddigon eang i sicrhau y dychwelir y niferoedd mawr fydd eu hangen.

Mae dedfryd Greenock eisoes wedi cael ei chodi yn Senedd yr Alban gan Alex Salmond, arweinydd yr SNP. Er mawr chwithdod i Donald Dewar, atgoffodd y ty fod penderfyniad y Siryf Gimblett wedi ei lunio yng ngoleuni geiriau cyn-Arglwydd Adfocat, yr Arglwydd Murray, a oedd yn aelod o'r Blaid Lafur. Mae dwy ddeiseb gwrth-Trident wedi eu cyfeirio at y Senedd o dan ystyriaeth ar hyn o bryd hefyd.

Rhaid ei bod yn embaras difrifol i lywodraeth yr Alban i orfod amddiffyn cadw a dal i ddefnyddio Trident, gan wybod fod Plaid Lafur yr Alban wedi pleidleisio yn erbyn yr anghenfil yr yr 16 cynhadledd flynyddol ddiwethaf! Dwi'n amau nad yw llawer o aelodau cyffredin y Blaid Lafur yn ymwybodol o'i pholisïau presennol o blaid arfau niwclear neu, os ydynt yn gwybod y ffeithiau, eu bod yn siomedig tost gyda'r twyll amlwg a'r celwyddau ynglyn â'r holl fater. Dwi'n meddwl am y llu o weithredwyr heddwch




*"Mr Trident, fe'ch cyhuddir o darfu ar yr heddwch ..."*

ymroddedig y dywedwyd wrthynt mai'r ffordd o gael gwared o arfau niwclear oedd drwy sicrhau buddugoliaeth i Lafur yn yr etholiad cyffredinol ... rhaid eu bod yn gwenu'n drist wrth gofio'r geiriau hynny nawr.

Yn ail, mae mater fy apêl i fy hun i'r Uchel Lys yng Nghaeredin; gwrthodais dalu dirwy a osodwyd arnaf gan ynad Helensburgh yn sgîl Gan mod i wedi bod yn hel cymaint o atgofion, un arall i gloi. Dwi'n cofio un o'r areithiau gwrth-niwclear mwyaf pwerus ac argyhoeddiadol a glywais i erioed - cystal araith, yn wir, nes peri i mi ymuno ag CND o'r diwedd. Araith gan siaradwr ifanc, pengoch yr oedd ei eiriau mor argyhoeddiadol nes fy mod yn dal i allu cofio swm a sylwedd ei ddadleuon. Ei enw. fel y cofiaf, oedd Robin Cook ... tybed beth ddigwyddodd iddo fe? Dyna George Robertson wedyn, *numero uno* NATO erbyn hyn, a chyn-aelod o CND ac, wrth gwrs, Tony Blair. Fel y dywed y Beibl, "na hyderwch ar dywysogion" a dylid ychwanegu at hynny na gwleidyddion, prif weinidogion, rhai sy'n gobeithio bod yn arweinwyr, pobl bwysig, a phawb sy'n ceisio pwer. Mae hen air yr Arglwydd Acton am allu pwer i lygru yn cael ei orddefnyddio, ond mae'n dal yn wir. Am y rheswm hwnnw, er fy mod i fy hun yn cefnogi'r SNP ac yn credu fod ei hymrwymiad i ddileu Trident fel y dur, serch hynny, byddaf yn para i weithio dros fudiad "o'r gwaelod i fyny", yn seiliedig ar bobl, yn cynnwys cefnogaeth bleidiol ac amhleidiol. Ys dwedan nhw, mae heddwch yn rhy bwysig i'w adael i wleidyddiol.

## Gweithredu uniongyrchol

Mae dyfodiad Trident Ploughshares (TP) i'r Alban yn ffactor bwysig arall. Mae sail eang TP, sy'n cwmpasu pobl o bob oed, dosbarth a chred, a'i ymrwymiad i weithredu wedi helpu i greu cysylltiadau a hwyluso cydweithrediad gyda mudiadau gweithredu eraill, grwpiau amgylcheddol, gwrth-ffyrdd, hawliau anifeiliad, gwrth-GM, ac ati. Mae pobl iau yn ei chael hi'n haws ymuniaethu â'r math hwn o ymgyrchu gweithredol gyda TP na gyda delwedd flinedig a threuliedig braidd, passé CND. Mae TP wedi bod o fudd mawr i CND yr Alban, ac wedi adfywio'r mudiad. Roedd y ddedfryd o Greenock ym mhenawdau pob papur newydd dyddiol yn yr Alban, y gwych a'r gwachul. Fedra'i ddim cofio CND yn cael cymaint o sylw o'r blaen.

## Caru bywyd

Does ond gobeithio y gall yr ynni yma ymledu i grwpiau eraill, y pleidiau gwleidyddol a'r eglwysi. Yn yr Alban, mae'r esgobiaid Pabyddol ac Eglwys yr Alban wedi gwrthod Trident, a felly hefyd arweinwyr crefyddau eraill. Mae gan yr SNP bolisi gwrth-niwclear, ond nid yw'n rhoi'r flaenoriaeth i'r ymgyrch yn erbyn Trident. Efallai y byddai gwerthfawrogi gwreiddiau hanesyddol Ploughshares, a gwerth ysbrydol gweithredu heddychol, di-drais ac atebol - *satyagraha* Gandhi - yn cyffwrdd â nerf a chyffroi ymrwymiad mwy egnïol i heddwch.

Pan euthum ar y daith gerdded faith yr haf diwetha, o'r Hâg i bencadlys NATO ym Mrwsel, yr hyn a'm trawodd i oedd amrywiaeth anferth y grwpiau a gynrychiolwyd yno: ffermwyr o India yn protestio yn erbyn bio-ladrad a genyn terfynu Monsanto, pobl o *For Mother Earth*, Dilead 2000, *Earth First* a'n gwersyll heddwch ein hunain yn Faslane. Pobl o bob oed, lliw, diwylliant a gwlad. O Mosgo i Melbourne, o Cameroon i Christchurch, roedd pobl wedi dod am eu bod yn gwybod fod yr hyn oedd yn eu huno - cariad at fywyd - yn bwysicach na phopeth a oedd fel pe bai'n eu gwahanu. Fe'm hatgoffwyd o eiriau Art Lattin o Dy Gweithwyr Pabyddol Dorothy Day yn Washington:

*"Yn fy marn i, gobaith sylfaenol gweithredu Ploughshares yw cyfathrebu, o'r eiliad yr eir i mewn i wersyll neu ffatri - a drwy gyfnod y llys a thystio yn y carchar - ffydd waelodol y gall pwer cariad di-drais oresgyn grymoedd trais; parch tuag at sancteiddrwydd pob bywyd a'r cread; apêl am gyfiawnder i ddioddefwyr tlodi a'r ras arfau; derbyn cyfrifoldeb personol am ddatgymalu a thrawsnewid arfau i ddibenion eraill; a throedigaeth ysbrydol yn y galon i lwybrau cyfiawnder a chymod."*

Teimlaf fod ysbryd a nerth y rheini sy'n ymrwymedig i *"barch tuag at sancteiddrwydd pob bywyd"* yn tyfu, ac y bydd yn anorchfygol yn y pen draw.

*Brian Quail, Is-gadeirydd CND yr Alban*
*Gweithredydd Trident Ploughshares 2000*



*Cysylltiadau Celtaidd! Mary Kelly o Iwerddon yn dal y Saltire tra bod confoi ergydion niwclear yn cael ei 'gymryd i'r ddalfa' gan brotestwyr yn Balloch.*

# Ymgyrchu - y Diweddaraf

## Datgan Blwyddyn Ryngwladol Diwylliant Heddwch yng Nghymru

Trefnodd Cymdeithas y Cymod ddiwrnod i ddathlu Lansio Degawd Rhyngwladol Diwylliant o Heddwch heb Drais i Blant y Byd y CU ar y 6ed Rhagfyr 1999. Roedd y diwrnod hefyd yn dathlu bywyd a gweithredoedd yr ymgyrchydd heddwch George M.Ll. Davies fu farw yn annhymig ym 1948.

Yn ystod y digwyddiad, perfformiodd grwp o ddisgyblion ddrama gerddorol yn seiliedig ar fywyd George M.Ll. Davies. Hwylusodd Gary Owen drafodaeth ar ryfel ac adeiladu heddwch, gan ymdrin â'r fasnach arfau, cenedlaetholdeb, trais, arfau dinistr torfol, y cyfryngau ac addysg. Yn ddiweddarach, planwyd coeden goffa yng ngardd y Deml Heddwch (gweler y fforograff), Yn y prynhawn, anerchwyd cyfarfod gan Aled Edwards, Gweithiwr CYTUN (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) y Cynulliad Cenedlaethol, David Morris, Cadeirydd CND Cymru, ac Elnora Ferguson, Is-gadeirydd y Cyngor Heddwch Cenedlaethol ac aelod o Gymdeithas y Cymod. Bwriedir cynnal mwy o ddigwyddiadau ar thema Degawd Rhyngwladol Diwylliant o Heddwch heb Drais y CU.



Plannu coeden er cof am George M.Ll. Davies.O'r chwith i'r dde:Parch.E.H.Griffith, Nia Rhosier, Awel Irene, Parch.Alma Roberts

## Lansio ymgyrch yn Hinkley

Ym mis Chwefror, dathlodd Hinkley Point A, yr orsaf ynni niwclear Magnox ar arfordir Gwlad yr Haf, ei phenblwydd yn 35 oed. Mewn cyfarfod llwyddiannus yn Bridgewater, lansiwyd ymgyrch newydd i gau Hinkley A. Siaradodd Hugh Richards, o Gynghrair Wrth-Niwclear Cymru, am broblemau dyluniad adweithyddion Magnox:

- ni ddyluniwyd yr adweithyddion i fodloni safonau modern
- wyddom ni ddim sut mae mesur y perygl o orsafoedd Magnox
- dyluniwyd gorsafoedd Magnox i weithredu am ugain mlynedd
- mae adweithyddion Hinkley Point A yn dioddef o'r un broblem ymfreguso a arweiniodd at gau Trawsfynydd bron naw mlynedd yn ôl
- mae mannau gwannaf Llestri Pwysedd yr Adweithyddion yn Hinkley Point A erbyn hyn wedi cael eu peledu â mwy o niwtronau nag a ddigwyddodd yn Nhrawsfynydd
- Mae'r ddamwain waethaf bosibl yn Hinkley Point A yn awr yn llawer mwy difrifol na'r ddamwain y seiliwyd y dyluniad arno,
- Does dim cynlluniau argyfwng i amddiffyn y cyhoedd rhag y fath ddamwain.

Dywed BNFL y bydd yn cau gorsaf ynni niwclear Magnox Bradwell yn Essex erbyn mis Mawrth 2002, gan na all gyfiawnhau cost anferth ei chadw i weithredu wedi'r dyddiad hwnnw. Mae'n ddiddorol nodi fod y cwmni, mewn ffit o optimistiaeth wyllt, wedi cyhoeddi mai dim ond rhyw 4 blynedd a gymerai'r gwaith dadgomisiynu.




**heddweithredu:** mynegwch eich pryderon wrth eich AS a/neu'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch, Nuclear Safety Directorate, Rose Court, Southwark Bridge, Llundain SE1 9HS. Danfonwch gopïau o unrhyw atebion at Ymgyrch Atal Hinkley drwy law Jim Duffy, Rydon Lodge, West Quantoxhead, Taunton TA4 4DW (01984) 632109.

## Newyddion Trident Ploughshares

Roedd Tachwedd yn fis prysur iawn o weithredu gan Wersyll Heddwch Faslane. Gweithred "Torch Trident" ar Dachwedd 5ed oedd gyntaf. Pryd rhwystrwyd dwy glwyd yn Faslane am rai oriau. Ddydd Llun 15fed Tachwedd llwyddodd grwp o weithredwyr Trident Ploughshares i atal gweithwyr rhag mynd i mewn i Storfa Arfau'r Llynges Frenhinol (lle caiff ergydion niwclear Trident eu storio) am fwy nag awr. Restiwyd 13 o bobl. Yn eu plith roedd Morag Balfour a Roz Bullen, ill dwy yn ddefnyddwyr cadeiriau olwyn sydd wedi bod yn gweithredu dros heddwch ers amser maith. Clymodd Sylvia Boyes, Marjan Williams a Jenny Gaiwyn eu hunain wrth dri bws gwahanol i rwystro clwyd arall cyn cael a'u restio. Dyna'r ail waith i Sylvia gael ei restio y penwythnos hwnnw

Mae gweithredydd Trident Ploughshares sy'n ymddangos mewn llys yn yr Alban wedi hawlio fod y cyhuddiad yn ei herbyn, "Tarfu ar yr Heddwch" yn anghyfreithlon o dan Ddeddf yr Alban 1999. Mae Pamela Smith yn herio'r cyhuddiad ei hun ar y sail fod y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a gynhwyswyd yng nghyfraith yr Alban o ganlyniad i ddatganoli, yn gwahardd unrhyw gyhuddiad troseddol nad yw'n diffinio terfynau ymddygiad derbyniol. Mae'n amlwg nad yw tarfu ar yr heddwch, cyhuddiad traddodiadol benagored, yn cydymffurfio â hynny. Mae Ynad Stirling wedi cymryd hynny o ddifrif, a gohiriwyd yr achos i ddisgwyl dadl gyfreithiol ar 25ain Ionawr 2000.

## Yr Arglwydd Adfocad yn Atgyfeirio Dyfarniad Greenock

Mae Arglwydd Adfocad yr Alban, a ddwedodd ym mis Hydref y byddai'n atgyfeirio'r dyfarniad dieuog y Siryf Margaret Gimblett yn achos "Triawd Trident" yn Llys Siryf Greenock, wedi cyflwyno'r papurau atgyfeirio swyddogol o'r diwedd. Cafwyd Ellen Moxley, Ulla Roder ac Angie Zelter yn ddieuog" o "ddrygioni maleisus" yr amcangyfrifwyd ei fod wedi achosi gwerth £80,000 o niwed, wedi iddynt gyfaddef yn agored eu bod wedi taflu offer yn ymwneud â Trident i mewn i Loch Goil. Wrth eu cael yn ddieuog, dywedodd y Siryf Gimblett na allai ddarganfod unrhyw fwriad troseddol yng ngweithred y menywod.

Dim ond pum enghraifft flaenorol sydd o "atgyfeiriad gan Arglwydd Adfocad", sef dyfais sy'n caniatáu i'r Goron geisio barn ar achos neilltuol. Does dim peryg o wrthdroi'r ddedfryd ddieuog. Hyd yma, ni chafwyd dim gwybodaeth am natur yr eglurhad a geisir, nac o ddyddiad y gwrandawiad. Meddai llefarydd ar ran Trident Plough-

shares: *"Onid yw hwn yn atgyfeiriad technegol yn unig, bydd y gwrandawiad yn gyfle arall i ddangos fod polisi arfau niwclear Prydain yn anghyfreithlon a bod cyfiawnhad pendant o dan gyfraith ddyngarol ryngwladol i weithredu diarfogi heddychlon yn erbyn Trident."*

Mae Sefydliad Treth Heddwch Denmarc wedi dyfarnu ei Wobr Heddwch flynddol i Ulla, ac wedi talu ei chostau teithio! Derbyniodd Rosyn Heddwch blynyddol y grwp NeverMoreWar hefyd.

**heddweithredu:** cefnogwch Trident Ploughshares 2000: David Mackenzie 01324 880744 (07775 711054), Jane Tallents 1436 679194 Trident Ploughshares 2000, 42-46 Bethel Street, Norwich, Norfolk NR2 1NR, tel: 01324 880744 ffacs 01436 677529 http://www.gn.apc.org/

## Barrow

Restiwyd dau weithredydd Trident Ploughshares y tu fewn i ddoc VSEL yn Barrow-in-Furness ym mis Tachwedd 1999 a'u dwyn ger bron llys Ynadon Barrow ar gyhuddiad o gynllwynio i gyflawni niwed troseddol. Roedd Sylvia Boyes, a River, wedi bwriadu nofio ar draws y doc a dringo ar fwrdd y llong danfor arfau niwclear Vengeance yn cario offer diarfogi. Gwnaeth Sylvia Boyes gais am fechnïaeth ond fe'i gwrthodwyd. Yn ystod y gwrandawiad, croesawodd y disgrifiad ohoni gan yr Erlynydd fel "ymgyrchydd ymroddedig dros heddwch". Dwedodd llefarydd ar ran Trident Ploughshares: "Mae'r llong hon a phob rhan o system Trident yn anghyfreithlon. Fe fyddwn yn parhau i weithredu i'w diarfogi, hyd yn oed os yw hynny'n golygu mynd i'r carchar".

## Menywod Aldermaston yn y Llys

Ym mis Ionawr, yn Llys y Goron Caerhirfryn, penderfynodd y Barnwr na allai achos Rosie James a Rachel Wenham am beri gwerth amhenodol o niwed i'r llong danfor niwclear Trident Vengeance fynd yn ei flaen. Yn wreiddiol, cafodd Rosie a Rachel eu cyhuddo o achosi gwerth £25,000 o niwed ar 1af Chwefror 1999 ac addurno a niweidio Vengeance. Am ddau ddiwrnod a hanner bu'r erlyniad yn oedi ac yn osgoi cyflwyno tystiolaeth eglur i gyfiawnhau honni pedair gwaith cymaint o niwed na'r cyhuddiad gwreiddiol.Ataliwyd yr achos o'r diwedd pan ddaeth yn amlwg fod diffyg sylwedd ac amwysedd tystiolaeth yr erlyniad yn gofyn am asesiad annibynnol. Gan y byddai hynny'n golygu oedi sylweddol, penderfynwyd y byddai angen rheithgor newydd. Dywedodd Bargyfreithwraig y diffynyddion, Vera Baird, "Mae'r dilyniant o amcangyfrifon camarweiniol parthed gwerth y niwed yn peri i ni amau na allwn ddibynnu ar yr un gair a ynganir gan Marconi neu'r Goron."

**heddweithredu:** i gynnig cymorth ariannol neu o ryw fath arall, cysyllter ag Aldermaston Women Trash Trident 07808 553 778 e-bost: awtt@hotmail.com

## Helen John yn ei gwneud hi eto

***"Jury backs granny's anti-nuclear graffiti"*** **(Guardian)**

Cafwyd Helen John yn euog o achosi niwed troseddol wedi iddi beintio "Ban Trident", "No Star Wars" a "Ban depleted uranium weapons" ar Dy'r Cyffredin. Ond rhoddodd y rheithgor nodyn i'r barnwr yn dweud na allent gondemnio gweithredoedd Helen. Darllenodd y Barnwr



Henry Blacksell QC y nodyn allan yn Llys y Goron, Middlesex. *"Rydym yn unfryd fod gan y diffynydd achos rhesymol dros ei gweithredoedd."* Dywedodd wrth y rheithgor, *"Gallwch gymryd fy mod yn deall hynny ... ac y byddaf yn ffyddlon iddo."* Gohiriodd y barnwr ddedfryd am chwe mis a rhoes ryddhad amodol i Helen ar yr amod ei bod yn "ymddwyn yn dda" yn ystod y cyfnod hwnnw. Dywedodd wrth Ms John, sydd â 23 dedfryd flaenorol am dramgwyddau tebyg neu gysylltiedig, *"Fe'i gwnaethoch yn gwbl glir yn ystod eich tystiolaeth ... eich bod yn benderfynol o barhau ... does dim byd a ddywedaf fi ... yn drist, yn dda neu'n ddrwg ... yn mynd i newid hynny ... Ond mae arnaf ddyletswydd i'r cyhoedd i sicrhau nad achosir niwed pellach."* Roedd Helen yn gwadu iddi hi dorri'r gyfraith a mynnai mai'r cyhoedd sy'n berchen Palas Westminster a phe gwyddai'r cyhoedd beth roedd hi'n ei wneud, byddai wedi cydsynio. Dywedodd Riel Karmy-Jones, wrth erlyn, er gwaethaf "ymgais a gostiodd £4,500 i lanhau'r graffiti, fod amlinelliad drychiolaethol y sloganau yn dal i fod yno, a bod y niwed yn debyg o fod yn anadferwydwy." Dywedodd llefarydd ar ran adran yr Arglwydd Ganghellor ei bod yn anarferol dros ben i reithgor gollfarnu diffynydd, ond yna i wrthod condemnio eu gweithredoedd, ond ni allai ddweud a oedd yr achos yn gosod cynsail gyfreithiol.

## Menwith Hill

Gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, yr Asiant Tir Amddiffyn a Swyddog Cydgysylltu'r RAF yn NSA Menwith Hill gais am ddileu Gwrit a gofnodwyd gan yr ymgyrchydd heddwch Lindis Percy i geisio atal gwaith ar System Is-Goch y Gofod (SBIRS) yn Menwith Hill, ar y sail ei bod yn camddefnyddio proses y llys. Fodd bynnag, gwrthododd Meistr Tennant y cais, a dywedodd y byddai rhaid i Lindis Percy wella'r Writ a'i gosod ger bron am ganiatâd i fynd ymlaen i achos llys llawn ger bron barnwr. Y peth gwael oedd iddo ddyfarnu costau i'r diffynyddion o £4,500 yn erbyn Lindis. Rhaid talu'r costau hyn yn llawn ddau fis cyn y gellir gosod Gwrit ddiwygiedig ger bron Meistr Tennant eto. Dwedodd Lindis Percy "mae'r writ hon wedi costio'n ddrud iawn eisoes ac mae £4,500 yn swm anferth, er y byddai'n bris bach i'w dalu i geisio atal Star Wars newydd rhag gweithredu yma yn y DU yn NSA Menwith Hill." Mae'r seiliau concrid eisoes wedi cael eu gosod ar gyfer y ddwy radom newydd y fydd yn dal y dysglau lloeren SBIRS ac offer ar gyfer yr Orsaf Drosglwyddo Ddaearol Ewropeaidd (rhan hanfodol o system Amddiffyn Taflegrau Genedlaethol America, a adwaenir hefyd fel "mab Star Wars"). Llywodraeth yr UD sy'n talu amdani, mae'r cael ei gweithredu a'i rheoli gan yr Americaniaid, a'i goddef gan lywodraeth y DU. Dyw'r mater erioed wedi cael ei drafod yn y Senedd Brydeinig. Mae'r anghyfreithlon, yn annemocrataidd, yn beryglus ac yn ddianghenraid!

**heddweithredu:** danfonwch gyfraniad tuag at y costau o £4,500, da chi, i ganiatáu i'r menywod barhau â'r Writ a gweithgareddau heddwch eraill. Sieciau'n daladwy i CAAB (Ymgyrch Atebolrwydd Gwersylloedd Americanaidd). Diolch am bob cymorth! d/o Campaign for the Accountability of American Bases, 8 Park Row, Otley, G. Swydd Efrog LS21 1HQ, Lloegr. Tel/ffacs: 01943 466405 neu 01482 702033.

# Clymblaid yr Agenda newydd a'r Cytundeb Gwrth-Ymlediad Niwclear

Ym 1995, yn y Cenehedloedd Unedig gorfododd y lleiafrif o wladwriaethau ag arfau niwclear (GANau) y mwyafrif o wladwriaethau sydd heb arfau niwclear (GHANau) i gytuno i ymestyn y Cytundeb Gwrth-Ymlediad Niwclear (NTP) am gyfnod amhenodol.

Fodd bynnag, teimlai llawer o'r GHANau a mwyafrif o'r mudiadau an-lywodraethol fod y pum gwladwriaeth sydd wedi datgan fod ganddynt arfau niwclear wedi tra-lywodraethu ar drafodaethau diarfogi rhyngwladol yn rhy hir a doedden nhw ddim yn credu fod gan y GNAau unrhyw fwriad o gyflawni eu hymrwymiad i negydu diarfogi niwclear "yn ddidwyll".

Pwyswyd ar y GANau i ildio consesiynau pwysig yn seiliedig ar thema Canada o "sicrwydd parhaol gydag atebolrwydd". Yn gyntaf, y bwriad oedd dod â rhaglen weithredu i helpu i sicrhau byd heb arfau niwclear i fod erbyn 2000, i'w hyrwyddo a'i gweithredu gan bob gwladwriaeth oedd wedi arwyddo'r NTP. Yr ail gam oedd proses bum-mlynedd o adolygu gweithrediad y cytundeb.




*. 'Ers 40 mlynedd ... negydu amlochrog ... cadarn ... a dibynnol o aflwyddiannus ... hoffwn gyflwyno'r rhodd ymddeol yma i chi ...'*

Mae cyfuniad o anfodlonrwydd i roi'r gorau i arfau niwclear ynghyd â chred mai arfau felly sy'n cynnig y diogelwch cenedlaethol eithaf, a dirywiad cyffredinol mewn cysylltiadau rhyngwladol, wedi golygu mai ychydig iawn o gynnydd a fu a llawer iawn o rwystredigaeth. Mewn gwirionedd, mae'r GANau yn meddwl fod mesurau gwrth-ymlediad graddol yn gyfystyr â diarfogi niwclear, tra bod y GHANau yn meddwl fod diarfogi niwclear yn anghymarus â braw-ataliaeth niwclear.

Mae grwp o'r GHANau, Clymblaid yr Agenda Newydd (CAN) wedi cyhoeddi nifer o gynigion difrifol, ymarferol ar gyfer diarfogi byd-eang. Cefnogir CAN gan ymgyrchwyr dros ddiarfogi niwclear fel modd ymarferol o dorri'r ddadl. Mae'r Unol Daleithau, Prydain a Ffrainc wedi adweithio'n wael iawn i gynigion CAN.

Ym mis Hydref y llynedd, cyflwynodd cynrychiolydd Seland Newydd ddrafft o "Benderfyniad Agenda Newydd ar gyfer Byd-di-arfau-niwclear" ger bron y Pwyllgor Cyntaf (Diarfogi a Diogelwch Rhyngwladol) yn y Cenhedloedd Unedig.Croesawodd Prydain barodrwydd CAN i drafod a gwella geiriad y penderfyniad, cytunodd â llawer o'r cynnwys cyn mynd ymlaen i ddweud ei fod yn mynd yn rhy bell yn rhy gyflym, yn enwedig mewn perthynas â datgyplysu ergydion niwclear oddi wrth eu cerbydau tanio gan na fyddai hynny'n gydnaws â "braw-atal lleiafsymol credadwy". "Yn union", fyddai dadl ymgyrchwyr! Condemniodd Ffrainc nifer o'r mesurau gan ddweud fod y ffordd hon o fynd ati yn "beryglus", tra nad oedd yr Unol Daleithau yn gweld fod angen agenda 'newydd' o gwbl. Yn y pen draw, pleidleisiodd 13 o wladwriaethau, dan arweiniad yr UD, Prydain a Ffrainc, yn erbyn penderfyniadau CAN, gyda 90 o bleidleisiau o blaid a 37 yn atal eu pleidlais yn cynnwys rhan fwyaf o'r gwledydd sy'n aelodau o NATO.

Gwnaeth Gweinidog y Swyddfa Tramor, Peter Hain, nifer o sylwadau positif iawn yn ddiweddar mewn dadl feinciau-cefn ar Arfau Dinistr Torfol a chanmolodd waith CND Llafur Seneddol. Dywedodd hefyd mae *"prif erfyn atal ymlediad arfau niwlear yw'r Cytundeb Gwrth-Ymlediad Niwclear"* ac y *"byddwn yn gweithio'n galed yn y misoedd nesaf i baratoi ar gyfer cynhadledd y gwladwriaethau sy'n rhan o'r Cytundeb Gwrth-Ymlediad Niwclear yn Ebrill a Mai."* Dywedodd uwch-ddiplomydd o fyd y "mwyafrif" (y gwledydd sy'n datblygu) wrthyf yn Efrog Newydd ym 1995 na fyddai'r gwladwriaethau ag arfau niwclear yn symud mewn unrhyw fodd sylweddol tuag at ddiarfogi niwclear hyd oni fydd pobloedd cyffredin y gwledydd hynny yn lleisio eu gwrthwynebiad torfol. Efallai y gallem oll ddechrau gyda llythyr at Peter Hain AS, yna llythyron at ein ASau, yna ... *Nigel Chamberlain Swyddog Y Wasg CND*

**heddweithredu:** O 24ain Ebrill tan 19eg Mai bydd Cynhadledd Adolygu'r NTP yn digwydd yn Efrog Newydd. Bydd CND yn lobïo ar bob lefel i annog Prydain i weithio'n egnïol tuag at ddileu arfau niwclear. Mae angen llythyron gan unigolion at ASau, Gweinidogion a'r Prif Weinidog. Rydym yn gofyn i'r PW i weithredu'n ymarferol ar ddiarfogi, nid ailadrodd yr un safle diflas, drwy newid safbwynt Prydain ar ddiarfogi mewn modd ffrwythlon. Mae gweithgaredd anferth yng nghynhadleddau'r NTP bob amser, gyda'r mudiad heddwch rhyngwladol wrthi'n dadlau'r achos a chynnig gwybodaeth i gynrychiolwyr. Bydd CND yno. Mwy o wybodaeth am lobïo eich AS a Gweinidogion gan CND, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ (0171) 700 2393.

**Cyfeiriadau defnyddiol:**

Eich AS, Ty'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA

Y Prif Weinidog Tony Blair AS, 10 Downing Street, Llundain SW1A 2AA http://www.number-10.gov.uk/index.html

Geoff Hoon AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD), Main Building, Whitehall, Llundain SW1A 2HB.

Robin Cook AS, Yr Ysgrifennydd Tramor, Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (F&C Office), Llundain SW1A 2AH & **Peter Hain AS**, a **Donald Anderson AS** (Cadeirydd y Pwyllgor Dethol Materion Tramor) - yn y Swyddfa Dramor, fel uchod.

**Y Cytundeb Gwrth-Ymlediad Niwclear (NPT)**

Arwyddwyd hwn gyntaf ym 1969 gan yr UD, yr Undeb Sofietaidd a Phrydain ac ers hynny, gan 180 o genhedloedd. Bwriad gwreiddiol yr NTP oedd atal ymlediad arfau niwclear i wledydd eraill drwy helpu gwledydd oedd yn fodlon rhoi'r gorau i'r syniad o fod ag arfau niwclear a'u cynorthwyo i sefydlu rhaglenni ynni niwclear. Cytunodd gwledydd a oedd eisoes yn berchen arfau niwclear i beidio â throsglwyddo'r dechnoleg i neb arall a chytuno hefyd i ymdrechu o ddifri i gael gwared o'u harfau niwclear. Fe gytunon nhw i gwtogoi ar nifer eu harfau eu hunain a negydu gwaharddiad byd-eang. Ym 1995, estynwyd yr NTP a'i adolygu. Dadleuodd CND, ynghyd â mudiadau an-lywodraethol eraill a gwledydd "datblygol" eraill, am estyniad cyfyngedig i'r Cytuneb fel y gellid dwyn pwysau ar y gwladwriaethau arfau niwclear i ddiarfogi a chytuno i waharddiad byd-eang. Rhoddodd y gwladwriaethau arfau niwclear bwysau economaidd ar lawer o wledydd tlawd i bleidleisio o blaid estyniad amhenodol, ac fe gawsant eu ffordd. Ychydig o wythnosau wedi'r bleidlais hon, dechreuodd Ffrainc a Tsieina brofion arfau niwclear newydd.

## Penderfyniad 1284 y CU

# Madeline Albright am gadw Irac mewn bocs?



Mae pwysau rhyngwladol o blaid dileu sancsiynau anfilwrol yn erbyn Irac wedi cynyddu yn y misoedd diwethaf oherwydd fod tri aelod parhaol arall Cyngor Diogelwch y CU yn gwrthwynebu ymosodiadau awyr yr UD/Prydain ar Irac.

Ciliodd y gobaith y gellid datrys y dagfa ar sancsiynau economaidd yn fuan fis Medi diwethaf pan fethodd diplomyddion yn y CU gael yr aelodau i gytuno ar bolisi tuag at Irac. Cyfarfu'r pum aelod o'r Cyngor Diogelwch sydd â'r hawl i nacáu yn Llundain lle cytunwyd na fyddai pleidlais oni ellid sicrhau UDA a Phrydain na fyddai Rwsia a Tsieina'n defnyddio eu hawl i nacáu. Sicrhawyd hynny yn y pen draw ar 17eg Rhagfyr 1999 pan basiwyd Penderfyniad 1284 y CU gyda phedwar aelod - Rwsia, Tsieina, Ffrainc a Malaysia - yn atal eu pleidlais.

Byddai'r penderfyniad newydd yma'n gohirio sancsiynau ar Irac ar ôl 120 o ddyddiau o gydweithredu gyda chorff arolygu arfau newydd, UNMOVIC. Fodd bynnag, brwydrodd Prydain i gadw'r diffiniad o "gydweithredu" yn fwriadol aneglur.

### Ffrainc

Dwedodd Alain Dejammet, cynrychiolydd Ffrainc ar y Cyngor Diogelwch, fod yn y penderfyniad elfen "anhysbys" ac "amwysedd" y dylid fod wedi eu datrys. Yr elfen "anhysbys" oedd na nodwyd manylion y mecanwaith ariannol. Roedd "amwysedd" ynglyn â'r meini prawf ar gyfer gohirio a dileu sancsiynau, y gellid eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Aeth ymlaen i ddweud fod hyn yn parhau i gadw poblogaeth Irac ar wahân; fod sancsiynau wedi eu hanelu yn erbyn pobl gyffredin Irac, ac na allai'r Cyngor Diogelwch gefnu ar ei gyfrifoldeb yn wyneb trychineb ddyngarol go iawn.

### Rwsia

Dwedodd Sergey Lavrof, cynrychiolydd Rwsia, wrth son am y rhaglen arolygu arfau flaenorol, UNSCOM, mai ar weithredoedd yr Unol Daleithau a Phrydain, a oedd wedi mynd tu cefn i'r Cyngor, oedd y bai am yr oedi cyn cwblhau'r rhaglen arolygu a chael Irac i ufuddhau,. Doedd y Cyngor Diogelwch ddim wedi awdurdodi'r cylchfeydd gwahardd hedfan na'r ymgais i danseilio llywodraeth Irac. Rhaid rhoi terfyn ar weithredu unochrog anghyfreithlon o'r fath; ni ellid caniatáu i'r un peth ddigwydd eto.

### Tsieina

Dwedodd Qin Huasan o Tsieina yn ystod dadl y Cyngor fod UNSCOM, o dan arweiniad ei gyn-gadeirydd gweithredol, wedi celu gwybodaeth rhag y Cyngor Diogelwch, wedi twyllo a chamarwain y Cyngor a hyd yn oed wedi gweithredu heb awdurdodaeth gan y Cyngor.

### Imperialaeth yr UD

Dwedodd Ysgrifennydd Gwladol yr UD, Madeline Albright, wrth drafod Penderfyniad 1284 y CU ar gyfweliad diweddar gyda NBC:

*"Dwi'n credu ein bod ni'n parhau i fod â'r posibilrwydd oedd gennym o'r blaen o weithredu'n unochrog neu'n amlochrog os oes rhaid i ni. Dwi'n credu ein bod ar y trywydd iawn o safbwynt eu cadw mewn bocs, o weithio gyda'r gwrth-bleidiau a gweithio tuag at newid y drefn, a'i gwneud hi'n hollol glir i wledydd yn y cyffiniau a gweddill y byd a'n partneriaid yn y Cenhedloedd Unedig fod yr hyn mae Saddam Hussein yn ei wneud yn annerbyniol."* Gallai penderfyniadau'r Cyngor Diogelwch ar Irac fod wedi gohirio sancsiynau anfilwrol. Os nad oedd Irac yn gallu gweld goleuni ym mhen draw'r twnnwl, pam fyddai hi am ufuddhau a chydweithredu? Yn y cyfansmer, mae llywodraethau'r UD a Phrydain yn parhau â'u hymgyrch fomio arswydus, ac mae plant Irac yn dal i farw yn eu miloedd bob mis oherwydd effeithiau'r sancsiynau economaidd.

## Cynnig Bore 252

Gosododd Alan Simpson AS y cynnig bore canlynol (EDM 252) ger bron yn ddiweddar. Sgrifennwch at eich AS, yn amgau testun y cynnig, a gofyn iddo/iddi ei arwyddo.
"Fod y ty hwn yn gresynu'r ffaith fod lluoedd Prydain ac America yn dal i saethu mwy na 100 o daflegrau'r mis at dargedi o fewn Irac, a'u bod wedi gwneud hynny drwy gydol y llynedd; yn cwestiynu gwerth moesol a milwrol y ffordd hon o fynd ati a'r £4.5 miliwn y mis y mae'n costio i'r DU; ac yn annog y Llywodraeth i roi terfyn ar y bomio, dileu'r sancsiynau ac ailgyfeirio ei gwariant at drasiedi cyfradd farwolaeth plant yn Irac sydd wedi dyblu yn y naw mlynedd er gosod sancsiynau ar Irac."

**heddweithredu:** cysylltwch a Lleisiau yn yr Anialwch Cymru, d/o Dave Rolstone, Hamdden, Efailwen, Clunderwen SA66 7UZ (01994) 419678; Isgadeirydd CND Cymru Ray Davies (gweler cysylltiadau)

## Trecwn

Yng Nghyfarfod Blynyddol yr Ardaloedd Di-niwclear ym 1999, galwodd cyfarwyddwr dadgomisiynu BNFL gynlluniau Omega Pacific ar gyfer storio gwastraff niwclear yng Nghrecwn yn "hanner-pob". Derbyniodd yn Ardaloedd Di-niwclear lythyr gan Omega Pacific yn awgrymu eu bod wedi rhoi'r gorau i'w cynlluniau. Yn sgil ymgyrch gardiau post CND Cymru a Chynghrair Wrth-niwclear Sir Benfro i ddwyn pwysau ar aelodau'r Cynulliad, mae 37 o ACau bellach wedi arwyddo "Datganiad Barn" sy'n gwrthwynebu storio gwastraff niwclear yn Nhrecwn.




Aeth si o gwmpas fod adran o'r llywodraeth yn ystyried Trecwn o ddifri fel safle Y Storfa Wastraff Niwclear Brydeinig., Dyw'r ymgyrch ddim drosodd eto. heddweithredu: diolch i bawb ddanfonodd gardiau post at yr ACau ddiwedd y llynedd. Danfonwch gop´au o'ch atebion at Paul Hawkes, Hafan Deg, Penrhiw, Llandudoch SA43 3HH (01239) 614856.

# newyddion

## Colledion BNFL yn Wylfa yn rhy fawr i'w mesur



Wrth i ni fynd i'r wasg, mae'r ddau adweithydd yng ngorsaf ynni niwclear Wylfa, Ynys Môn, yn dal ar gau, gan golli £2.5 miliwn yr wythnos i BNFL. Ym mis Ionawr, cafodd crafanc fecanyddol y tu fewn i un adweithydd "ei datgysylltu o'r elfen danwydd roedd yn ei chario" a wedyn, effeithiodd nam trydanol ar offer rheoli'r ail adweithydd. Mae'r cwmni'n addef iddo wario miliynau o bunnau yn y blynyddoedd diwethaf ar yr orsaf ynni niwclear ond roedd am bwysleisio nad oedd dim perygl i'r cyhoedd a bod 500 o bobl yn cael eu cyflogi yn Wylfa.

## Awyrennau bomio hedfan-isel newydd i chwalu'r heddwch dros Gymru

Honnir y bydd gwaith gwerth £1 biliwn i ddiweddaru awyrennau Tornado yn eu galluogi i hedfan heb i'r gelyn eu gweld, ar gyflymdra o 8 milltir y funud. Disgrifiwyd yr awyren newydd fel "mwy marwol a llechwraidd".

Mae'n siwr y bydd y rheini ohonom yng Nghymru sy'n gorfod diodde'r peiriannau lladd arswydus hyn yn hedfan dros ein pennau yn gwbl ymwybodol ohonyn nhw. Efallai na fydd yn codi llawer ar ein calonnau ni sydd â'n traed ar y ddaear i gael gwybod mai bwriad y gwaith gwella yw ymestyn oes awyren Tornado o 20 mlynedd i 40. Ac yn fwy iasol byth i ni sy'n cael ein brawychu beunydd gan driciau hedfan isel yr awyrennau rhyfel aflednais hyn, mae cynlluniau ar y gweill i ddechrau defnyddio awyrennau di-beilot (ie, rhai heb neb ynddyn nhw) yn lle'r awyrennau Tornado yn 2020. Mae'r rheini ohonom sy'n byw yn y rhannau hynny o'r wlad sy'n dioddef hedfan isel y fath erchyllbethau hefyd yn gwaredu rhag dyfodiad yr Eurofighter (Typhoon) o fewn y tair blynedd nesaf. Heb son am yr arswyd y bydd yr awyrennau hyn yn ei achosi i'w gelynion ac i ninnau sy'n ceisio ymdopi â byw is law eu meysydd chwarae, dywedir y bydd y Tornado newydd yn llosgi hanner tunnell o danwydd cyn iddi adael y ddaear. Mae hynny'n gwneud ymdrechion pitw'r dinesydd Cyffredin i arbed ynni a lleihau llygredd yn jôc braidd. O ydy, mae'r ffenestri'n ysgwyd, mae'n pennau'n diasbedain, mae'r anifeiliaid yn rhedeg yn wyllt, ac mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn chwerthin yn braf!Daliwch i gwyno: Cwynion Hedfan Isel: Weinyddiaeth Amddiffyn (0171)218 6020.

## BNFL - aneconomaidd, peryglus, ac economaidd gyda'r gwirionedd

Mae BNFL ar hyn o bryd yn disgwyl caniatâd gan y llywodraeth i fwrw ymlaen â chomisiynu Gwaith MOX £300 miliwn Sellafield (GMS) yn llawn. Y bwriad yw y bydd GMS yn cymryd plwtoniwm a adenillwyd yn THORP ac yn ei gyfuno ag wraniwm ffres i ffurfio tanwydd ocsid-cymysg (MOX). Mae BNFL yn ceisio datblygu marchnadoedd ar gyfer y tanwydd hwn, ond yn enwedig yn Siapan a'r Almaen. Mae'r plwtoniwm yn y MOX yn gymharol hawdd ei wahanu oddi wrth y tanwydd mewn labordy rhesymol ei adnoddau yn hytrach na'r gweithfeydd cymhleth a drud a ddefnyddir i ailbrosesu tanwydd hesb, fel THORP. Felly, mae unrhyw fasnach MOX yn bygwth lledaenu arfau niwclear.

Byddai'n amlwg yn beth call pe bai BNFL yn rhoi'r gorau i ailbrosesu, a thrwy hynny yn peidio ag ychwanegu at y stoc-bentwr Sellafield sydd ar hyn o bryd yn fwy na 55 tunnell. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud rhywbeth â'r stoc-bentwr hwnnw, ac un ffordd bosib o ymdrin â'r broblem yw sefydlogi'r plwtoniwm mewn gwydr trwchus, efallai wedi ei gymysgu â gwastraff lefel-uchel i'w gwneud hi'n fwy anodd i neb geisio adennill y plwtoniwm. Gellid addasu GMS i wneud y gwaith hwn. At hynny, fis Hydref diwethaf, cafwyd fod gweithwyr BNFL wedi ffugio dalennau rheolaeth ansawdd ar gyfer tanwydd MOX a gynhyrchwyd yn y Cyfleuster Arddangos Mox (CAM) yn Sellafield, a oedd i fynd i Siapan. Mae'r sgandal hon yn ei gwneud hi'n annhebyg y bydd BNLF yn gallu datblygu'r farchnad MOX yn Siapan, sy'n ollbwysig i wneud GMS yn economaidd. Mae dyfodol GMS, gan hynny, yn y fantol.

*Dave Andrews*

**heddweithredu:** Mae nifer o ASau yn dod â Chynnig Bore yn annog y llywodraeth i wneud arolwg cynhwysfawr o'r opsiynau sefydlogi cyn ymgynghori â'r cyhoedd ar y mater. Gofynnwch i'ch AS gefnogi EDM 323: Diogelwch niwclear a'r angen am ddewisiadau sefydlogi amgen. Testun llawn y cynnig gan Nigel Chamberlain, CND, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ (0171) 700 2393

## Camp Bondsteel - UDA yn Iwgoslafia

Wrth i uchelgais NATO ymestyn ymhellach i'r dwyrain, mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar adeiladu gwersyll milwrol UD anferth yn y Balcanau. Mae hyd at 52,000 o bobl yn gweithio ar "Camp Bondsteel" a saif rhwng Ferizaje a Gjilane yn ne Kosovo. Mae'r gwersyll yn cael ei adeiladu gan gwmni o'r UD, Brown and Root, is-gwmni i Halliburton Industries.

Dywedir mae Camp Bondsteel yw'r ganolfan filitaraidd fwyaf mai'r UD wedi ei hadeiladu o ddim er Fietnam. Mae pobl leol sy'n gweithio yno wedi gorfod tyngu llw i beidio â datgelu dim amdano, ac mae'r lle wedi ei ynysu o'r byd tu allan. Mae'n anferth, yn gorchuddio 775 o erwau, yn costio $36.6 miliwn, ac mae ganddo bob cyfleuster angenrheidiol ar gyfer ei 6,300 o filwyr. Mae'r ffordd mae'r gwersyll yn cael ei adeiladu yn awgrymu ymrwymiad dros rai blynyddoedd i amcanion sy'n ymestyn tu hwnt i ffiniau Kosovo.

Beth yw diddordeb yr UD yn Kosovo? Pa amcanion strategol tymor-hir y mae'r buddsoddiad anferth hwn yn eu cyflawni? Sut mae hi'n bosibl adeiladu'r fath beth ar diriogaeth sydd, yn ôl y farn gyfreithiol gyfredol - a phob penderfyniad CU - yn perthyn i wladwriaeth sofran gydnabyddedig Iwgoslafia?

**heddweithredu:** Dysgwch fwy: cysylltwch â'r Pwyllgor dros Heddwch yn y Balcanau, d/o Alice Mahon AS, Ty'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA tel: 0171 275 0164 e-bost: committee@peaceinbalkans.freeserve.co.uk gwefan: www.peaceinbalkans.freeserve.co.uk

## Arlywydd Gweithredol Rwsia yn ymagweddu?

Mae'r Kremlin, gyda'i Arlwydd gweithredol newydd, Vladimir Putin, wedi ostwng y trothwy niwclear, a'i gwneud


hi'n debycach y bydd yn defnydd arfau niwclear gyntaf mewn unrhyw wrthdaro milwrol. Mae'n amlwg mai ymateb yw'r strategaeth hon i ymddygiad Ewrop ac Unol Daleithau ymledol. Dywed y ddogfen strategaeth y byddai Rwsia'n ystyried defnyddio arfau niwclear mewn rhyfel *"Pe bai pob modd arall o ddatrys yr argyfwng wedi eu dihysbyddu"*. Mae'r iaith ddiwygiedig sy'n rheoli defnydd arfau niwclear yn cryfhau y strategaeth flaenorol, a gyhoeddwyd ym 1997, a oedd yn caniatáu defnyddio arfau niwclear *"ddim ond pe bai bygythiad i fodolaeth y Ffederasiwn Rwsiaidd"*. Yn ystod y Rhyfel Oer roedd Rwsia wedi ymwadu â defnydd cyntaf niwclear ers rhai blynyddoedd ond, gan ei bod yn poeni am Tsieina, rhoes y gorau i'r addewid hwnnw ym 1993.

Mae arbenigwyr milwrol rhyngwladol wedi rhybuddio fod Rwsia'n gorfod dibynnu fwyfwy ar ei lluoedd niwclear i atal neb rhag ei bygwth am nad yw ei lluoedd confensiynol bellach yn ddigon cryf i fwrw ymosodiad o'r tu allan yn ôl. Mae hynny'n golygu cadw arfau niwclear mewn cyflwr o uwch-barodrwydd, ac mae hynny'n gwahodd camgymeriadau. Mae system rybudd-cynnar Rwsia wedi dirywio gymaint fel yr honnir na allai Mosgo ganfod pe bai'r Unol Daleithau yn lansio taflegryn balistig rhyng-gyfandirol (ICBM) am o leiaf saith awr y dydd, ac ni all bellach ganfod taflegrau a daniwyd o longau tanfor yr UD o gwbl. Mae sylwedyddion ar raglen ofod Mosgo yn credu mai dim ond pedair o 21 lloeren rhybudd-cynnar Rwsia ar y mwyaf sy'n dal i weithio.

Mae si ei bod yn bosib y byddai Rwsia'n fodlon cwtogi ar nifer ei ergydion niwclear strategol o 4,000 i 1,500 pe bai'r UD rhoi'r gorau i'w chynlluniau ar gyfer system amddiffyn taflegrau genedlaethol. Ac eto, mae'r Arlywydd Putin wedi addo cynyddu gwariant ar amddiffyn o 57% ac mae Rwsia yn cynhyrchu taflegrau balistig rhyng-gyfandirol Topol-M newydd. Mae'r Arlywydd Clinton wedi addo cynnydd yn y gyllideb amddiffyn o $112 biliwn yn y chwe blynedd nesaf ac mae Prydain a'r UD yn datblygu ergydion niwclear Trident newydd.

Yn y cyfamser, does dim symudiad wedi bod gyda thrafodaethau rhyngwladol ar reoli arfau er 1995 a gallai Cynhadledd Adolygu'r NTP yn Efrog Newydd ym mis Ebrill yn chwalu o dan y pwysau yma. Mae'n hanfodol fod gwledydd yn cyrchu diarfogi niwclear yn ddidwyll, fel y cytunwyd o dan y Cytundeb Gwrth-Ymlediad Niwclear, fel yr arwyddwyd ef yn wreiddiol ym 1969, ac yr adolygwyd ac yr ehangwyd ef ym 1995.

## Seland Newydd Ddi-niwclear - Prif Weinidog gwrth-niwclear





Etholwyd Helen Clark yn Brif Weinidog Aotearoa/Seland Newydd. Fel un a ddadleuodd o blaid dileu arfau niwclear erioed, ag ymrwymiad i bolisi Plaid Lafur Seland Newydd o hyrwyddo Confensiwn ar Arfau Niwclear, Clymblaid yr Agenda newydd ac amcanion Dileu 2000, mae hi'n eiddgar iawn i gymryd rhan weithredol yn y trafodaethau NPT ym mis Ebrill. Ategodd Gweinidog Diarfogi a Rheolaeth Arfau newydd Seland Newydd, Matt Robson, fwriad llywodraeth Helen Clark i ymgyrchu'n egnïol dros ddiarfogi niwclear, a mynegodd bryder ynglyn â'r ffaith fod diarfogi niwclear ar stop llwyr ar hyn o bryd, ac arafwch y Gynhadledd ar Ddiarfogi yn Genefa. Mae'r llywodraeth newydd wrthi'n ceisio dileu cytundeb gyda'r UD i rentu awyrennau jet F16. Llongyfarchiadau i etholwyr doeth Seland Newydd!

## Gwaddol niwclear yn y Môr Tawel

Mae Ffrainc yn cefnu ar Mururoa a Fangatufa ar ôl 37 mlynedd. Yn y cyfnod hwnnw, ffrwydrodd 193 o fomiau niwclear gan lygru yr atolau a niweidio eu hecoleg bregus. Croesawodd ymgyrchwyr dros yr amgylchedd ymadawiad y lluoedd arfog ond maen nhw'n rhybuddio fod 193 o brofion niwclear rhwng 1963 a 1996 wedi gadael gwaddol o holltau a allai achosi *tsunami* (ton lanw) anferth. Honnodd swyddogion Ffrengig llynedd nad achoswyd unrhyw niwed tymor-hir gan y profion. Eto, mewn datganiad mynegodd y Llynghesydd Jean Moulin, pennaeth lluoedd arfog Ffrainc yn Polynesia ddiffyg hyder yng nghanlyniadau'r ymchwil a chyfaddefodd fod arno ofn y gallai'r tir hollti, ac achosi tonnau llanw. Hoffai Rod Donald, protestiwr blaenllaw yn erbyn profion niwclear Ffraince, feddwl mai *"hon oedd y bennod derfynol mewn stori ddrwg iawn. Ond mae arna'i ofn y bydd gwaddol anghyfrifoldeb Ffrainc yn parhau"*.

## Bactriaid nid bomiau yn Lop Nor



Mae safle profion niwclear Tsieina yn Lop Nor wedi cael ei chau'n swyddogol, a'i throi'n warchodfa ar gyfer y camel Bactriaidd prin. Ardal ddiffaith anial yr un maint â'r Almaen, i'r gogledd i Tibet, yw Lop Nor. Prif drigolion yr ardal yw 400 o gamelod Bactriaidd gwyllt; ar ôl llwyddo i oroesi ffrwydradau niwclear, roeddynt dan fygythiad gan helwyr. Dyma'r warchodfa gyntaf o'i bath i gael ei sefydlu ar safle profion bomiau atomig. Credir mai'r Bactriaid dau-grwmp yw cynrychiolwyr olaf yr heidiau gwyllt y mae holl gamelod y byd yn ddisgynyddion iddyn nhw. Maen nhw'n byw ar ddwr heli, porfa sych a'r coed grugwydd sy'n tyfu o gwmpas y ffynhonnau heli. Credir fod camelod dromedari un-crwmp gogledd Affrica a'r Dwyrain Canol wedi esblygu o'r rhain. Mae un crwmp yn ei gwneud hi'n haws iddyn nhw wrthsefyll gwres eithafol. Gwyddys i o leiaf 45 o brofion astmosfferig gael eu gwneud yn yr ardal cyn i'r profion fynd dan ddaear. Rhoddwyd y gorau i brofion yn llwyr ym 1996. Mae'r anialwch wedi ei lygru'n ddifrifol, ac mae pryderon mawr am y camelod a'u hymborth cyfyngedig.

## Y drasiedi'n parhau yn Tokaimura

Mae Hisashi Ouchi, gweithiwr pymtheg ar hugain oed, wedi marw yn yr ysbyty ar ôl damwain niwclear waethaf Siapan yng ngwaith ailbrosesu deunydd niwclear Tokaimura. Roedd wedi bod mewn cyflwr difrifol er cael ei ymbelydru gan 17,000 gwaith yr ymbelydredd a ganiateir yn flynyddol ar y 30ain Medi 1999. Mae gweithiwr arall, Masato Shinohara, 39, yn dal i fod yn yr ysbyty. Cafodd ymchwiliad fod y dynion wedi torri'r rheolau wrth gymysgu dogn beryglus o wraniwm wedi ei drin mewn bwcedi metal, gan gychwyn adwaith niwclear. Dim ond crib y rhewfryn yw hyn. Fe gymer flynyddoedd i gancrau a niwed genynnol a achoswyd gan yr ymbelydredd ymddangos; mae llawer a fydd yn ddioddefwyr y ddamwain heb eu geni eto. Ym mis Ionawr, penododd trigolion Tokaimura, lle mae traean o'r swyddi yn gysylltiedig â'r diwydiant niwclear, ymgyrchydd gwrth-niwclear i gynulliad y dref.

# Llythyr i Gymru gan Mordechai Vanunu

*Annwyl Robin Attfield,*

Diolch yn fawr iawn am eich cerdyn post cefnogol dyddiedig 7 Awst 1999. Dwi wedi bod yn derbyn ychydig o lythyron o Gymru ac eraill o bob rhan o Ynysoedd Prydain. Dwi'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth hon a'r diddordeb yn fy achos yn fawr iawn. Gobeithio fod fy achos hefyd yn helpu dinasyddion Prydain i wneud mwy yn achos dileu arfau niwclear ym Mhrydain a NATO [Yn y fan hon, mae sensor wedi bod mor garedig â rhoi ebychnod goch ar ymyl y ddalen.] Beth sy'n bwysig yw nid yn unig fy nioddefaint i yma, yn y carchar ers 13 blynedd, wedi fy nghadw ar fy mhen fy hun; y prif bwynt yw'r ffaith fod arfau niwclear yn dal i fod yn Israel, ynghyd â throsedd llywodraeth Israel yn fy herwgipio i.

Mae'n ddiddorol clywed gennych am bwnc "athroniaeth amgylcheddol" a beth sydd gan athronwyr i'w ddweud am broblemau amgylcheddol. Mae'n glir mai'r brif broblem fyd-eang i holl dinasyddion y byd yn awr, yn lle "Diwedd Hanes", yw problemau amgylcheddol yn anad dim arall. Mae wedi mynd yn un Ddaear i holl ddinasyddion y blaned, ac mae'r holl ddinasyddion wedi mynd yn un hil o fodau dynol, ag un ideoleg, sef cred mewn democratiaeth a rhyddid. Felly, yr hyn sydd ar ôl i bobl ei wneud, fel yr ymddengys, yw diogelu'r ddaear a'i holl adnoddau; nid yw hyd yn oed arfau niwclear, mae'n debyg, yn bygwth y ddaear am nad oes gelynion ac ni fydd rhyfeloedd yn y dyfodol. Ac eto, ni allwn fyw neu gyd-fodoli tra bod arfau niwclear yma. Yn y cyfamser, bydd rhaid i'r diwydiannau datblygu anferth ar draws y byd ymdrin â'r holl broblemau amgylcheddol.Felly, fy marn i yw fod angen i Israel, yn gyntaf oll, ddileu ei holl arfau niwclear ac agor adweithydd Dimona. Mae angen i'r un peth ddigwydd ym Mhrydain a'r holl fyd: cyn i ni allu dechrau ymdrin â'n problemau amgylcheddol, dylem roi terfyn ar berygl arfau niwclear; oherwydd fod arfau niwclear yn ei dwylo, gallwn eu dileu neu beidio â'u cynhyrchu. Daw problemau'r amgylchedd wedi hynny. Canlyniadau bodau dynol yn byw a gweithio a chynhyrchu yw'r rheini: anghenion bywyd, bob un ohonynt. Ond does dim angen arfau niwclear o gwbl.

Felly, diolch o galon i bobl Cymru a dymuniadau gorau am ymgyrch lwyddiannus i roi terfyn ar arfau niwclear ym Mhrydain ac Israel, yn union fel y rhoed terfyn arnyn nhw yn ne Affrica. Diolch.

Yn gywir iawn, *Mordechai Vanunu* 17eg Awst 1999

(Y marc post ar lythyr Vanunu oedd "Tel-Aviv 30/9/99". Golygwyd ychydig ar y testun gan y derbynydd.)




### Mae 200-300 o arfau niwclear gyda Israel

Mae Mordechai yn treulio ei 14eg flynedd mewn carchar yn Israel, yn garcharor cydwybod. Ym 1986, fe'i herwgipiwyd a'i garcharu am ddweud wrth y byd am arfogaeth niwclear Israel. Cynhaliwyd ei achos llys yn ddirgel. Y ddedfryd oedd 18 mlynedd am herio'r gwrthglawdd o gyfrinachedd a thwyll o gwmpas llywodraeth Israel. Ar 24ain Tachwedd 1999 cafodd y cyhoedd weld darnau o drawsysgrifiad achos llys 1988 o'r diwedd, diolch i ddeiseb gan un o bapurau-newydd mwyaf ei werthiant Israel, *Yediot Ahronot*. Mae'r erthyglau hyn wedi ennyn cynnwrf yn Israel ac wedi esgor ar ddadl gyhoeddus o'r diwedd ynglyn â pholisi Israel o gyfrinachedd niwclear. Cynhaliwyd y ddadl gyntaf erioed yn Senedd Israel (y Knesset) ar fater polisi niwclear Israel ym mis Chwefror 2000. (Rhyfedd fod Senedd gwlad yn gallu cynnal dadl ar rywbeth nad yw'r wlad wedi cydnabod yn swyddogol ei fod ganddo eto!) Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog Ehud Barak wedi dweud nad oes unrhyw bosibilrwydd y diarfogir arfogaeth niwclear Israel. Mae Israel wedi gwrthod arwyddo'r Cytundeb Gwrth-Ledaenu, oherwydd byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid iddi ganiatáu arolygiad rhyngwladol o adweithydd Dimona lle, fel y datgelodd Vanunu ym 1986, mae plwtoniwm o safon arfau wedi bod yn cael ei gynhyrchu'n ddirgel er y 1960au.

**heddwethredu**: Mae croeso i negeseuon o gefnogaeth bob amser. Daliwch i sgrifennu at Mordechai Vanunu, Carchar Ashkelon, Ashkelon, Israel. Wrth i ni fynd i'r wasg, mae Vanunu yn disgwyl am wrandawiad parôl. Am newyddion am hynny cysylltwch ag CND Cymru neu'r Ymgyrch dros Vanunu a Dwyrain Canol Di-niwclear, 89 Borough High Street, Llundain SE1 1NL (0171) 378 9324 e-bost: Vanunu@innocent.com

## Fy hunllefau niwclear yn parhau

### Ymlediad niwclear

Mae'r Weriniaeth Tsiec ar fin comisiynu gorsaf ynni niwclear newydd 40 milltir o'r ffin ag Awstria. Cwblhawyd y gwaith ar yr orsaf hon, a gychwynnwyd ym 1980 gydag adweithyddion o ddyluniad Sofietaidd, gyda chefnogaeth ariannol a thechnegol yr UE. Dyma'r unig orsaf ynni niwclear newydd sy'n cael ei hagor yn Ewrop yn y dyfodol rhagweladwy. Fodd bynnag, mae Westinghouse, cwmni o'r UD sy'n perthyn i BNFL, yn cynnig ar hyn o bryd am gytundeb i adeiladu gorsaf ynni niwclear ar Fae Akkuyu, ar arfordir Twrci ddaeargrynol â Môr y Canoldir.

### Dadgomisiynu niwclear

Mae gwledydd eraill yr UE wrthi'n ystyried dadgomisiynu eu diwydiannau niwclear. Mae Lithwania yn cau un o'i hadweithyddion mawr erbyn 2005 ac mae'n penderfynu beth fydd dyfodol un arall yn 2004. Mae Bwlgaria wedi cyhoeddi ei bod am negydu i gau ei gorsafoedd ynni niwclear. Yn Sweden, caewyd un adweithydd ym mis Tachwedd 1999 cyn iddo ddod i derfyn ei oes weithiol. Disgwylir y bydd yr Almaen yn cyhoeddi rhaglen ar gyfer cau ei 19 adweithydd ynni niwclear hithau cyn bo hir.

### Y waddol niwclear

Mae'r diwydiant ynni niwclear yn amlwg ar drai yn Ewrop o leiaf. Fodd bynnag, bydd gwaddol y gorsafoedd hyn yn rhoi hunllefau i'n plant a phlant ein plant am ganrifoedd i ddod. Bydd peirianwyr ac ecolegwyr y dyfodol yn rhwygo gwallt o'u pennau wrth geisio datrys y problemau a grewyd gan wastraff niwclear sych mewn storfeydd, gwastraff niwclear wedi ei gladdu, isotopau niwclear yn ein moroedd a'n llynnoedd a symudiad cyson radio-nwclidau drwy'r awyr, gan ymsefydlu ym meinwe planhigion ac anifeiliaid.

Yn y dyfodol, bydd pobl ein byd yn holi "Pa wallgorwydd wnaeth i'n cyndeidiau greu amgylchedd sydd mor beryglus, a phwy oedden nhw'n feddwl fyddai'n gorfod ymgodymu â'r radio-nwclidau marwol o waith llaw dyn?" Hynny yw - os bydd pobl ar ôl y ganrif nesaf. *Rod Stallard*

# Safle Capel Y Babell ar Mynydd Epynt




Nid pob Cymro a Chymraes sy'n gwybod am y gymuned amaethyddol Gymraeg ei hiaith a ddiwreiddiwyd o Gwm Cilieni ar Fynydd Epynt, ym 1940, bod Y Swyddfa Ryfel wedi cymryd meddiant o 36,000 o erwau'r mynydd a bod y rhan hon o Fynydd Epynt yn dal yn faes-ymarfer milwrol. O 1980 ymlaen y mae aelodau o Gymdeithas y Cymod wedi bod yn pererindota i safle Capel y Babell yng Nghwm Cileni, er bod y capel ei hunan wedi ei dynnu i lawr, ers rhai blynyddoedd. Y mae'r gladdfa yno o hyd, ac y mae'r safle'n ddigon amlwg i gynnal gwasanaeth yn yr awyr agored. Rhyw dair blynedd yn ôl ymddangosodd bwrdd-hysbysebu. ar y safle, ag arno'r geiriau a ganlyn, mewn Saesneg yn unig.

Teimlai llawer yn anesmwyth ynglyn â'r geiriad hwn, ac wrth wneud cais ar i neges wahanol gymryd ei le, dadleuwyd y dylai'r neges fod yn ddwyieithog gan roi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg. Crybwyllwyd anghymwyster yr ymadrodd ar y bwrdd hysbysebu 'benefited those who came here early in the 1940s' gan fod llawer ohonynt, wedi cael eu lladd, a'r dyfyniad ynglyn â brwydr y Falklands, gan na chodwyd eglwys na chapel yn un man ond i'r diben o ddathlu buddugoliaeth wahanol iawn i unrhyw fuddugoliaeth filwrol a fu eriod, sef buddugoliaeth y Groes.

Ar ôl dair blynedd daeth neges oddi wrth gaplan y sefydliad ym Mhontsenni yn dweud bod y penllywydd newydd yno, y Cyrnol Butler, yn barod i dderbyn dirprwyaeth oddi wrth Cymdeithasy Cymod, i drafod y posibilrwydd o newid y neges ar safle Capel y Babell. Ar yr ll eg o Hydref 1999 aeth pedwar ohonom i gyfarfod â'r Cyrnol â'r caplan. Argymhellwyd y datganiad isod fel mynegiant moel o ffaith, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Ebychodd y Cyrnol y byddai'n rhaid iddo gael amser i feddwl ynglyn â'r gosodiad 'ac ni ddysgant ryfel mwyach'. Ond wedi cynnig y ddadl fod pob capel ac eglwys a phob symbol Cristnogol, yn arwyddocau'r delfryd o gymod a heddwch, ni chymerodd fwy o amser i feddwl.

O ran newid y geiriad presennol ar yr hysbysfwrdd, fe ragorodd ar ein - deisyfiadau, gan gymryd yn ganiataol y dylai'r arwydd fod yn barhaol, gan ffafrio'r lechen Gymreig. Cynigiodd gymryd y cyfrifoldeb o geisio amcangyfrif ô'r gost o naddu'r argraff, a threfnu a thalu am osod y llechen argraffiedig yn ei lle. Yr unig anhawster oedd na feddai adnoddau i dalu am waith y saer-maen, a bydd y draul am hynny'n debyg o fod yn £400.Yr wyf yn cael ar ddeall fod Pwyllgor Gwaith Cymdeithas y Cymod wedi cytuno i ymgymryd â'r cyfrifoleb hwnnw,ac y mae'n fwy na thebyg fod llawer o ddarllenwyr ac eraill yn awyddus i gyfrannu at yr achos teilwng hwn.

Crybwyllasom y dymuniad o weld y gwaith yn cael ei gyflawni yn fuan, ac ni fynegwyd gwrthwynebiad. Mynegodd y Cyrnol, fel swyddog cyfrifol am ddiogelwch ymwelwyr, gais ar iddo gael ei hysbysu o fwriad y Gymdeithas i ymweld yn swyddogol â chwm Cilieni, ac y mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i barchu ei ddymuniad. Dyma'r neges a ymddengys ar yr hysbysfwrdd arfaethiedig:

*Safle Capel y Babell, a godwyd gan y Methodistiaid Calfinaidd yn 1857, ac a ddaeth yn ganolfan grefyddol, ddiwylliannol a chymdeithasol i'r gymuned amaethyddol Gymraeg ei hiaith o dros 200 o drigolion Cwm Cilieni tan 1940, pan feddianwyd y rhan hon o Fynydd Epynt gan y Swyddfa Ryfel i fod yn faes ymarfer i'r fyddin.*

*"...hwy a gurant eu cleddyfau'n sychau a'u gwaywffyn yn bladuriau; ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach."* Eseia 2.4

Canon Dewi W. Thomas. Rhydaman

---

# Atgof am y Gymru Ddi-niwclear newydd - 23ain Chwefror 1982


Gan mai Clwyd oedd y sir olaf i fwrw pleidlais, aeth criw ohonom i'r Wyddgrug i wneud yn siwr fod y cynghorwyr yn gwneud y peth iawn - ac fe wnaethon nhw! Roedd yn ddiwrnod rhynllyd o oer. Daeth y gair o gwmpas y gallem gael paned o goffi poeth, adfywiol yn Theatr Clwyd, a dwedodd Gwen (Robson) a minnau hynny wrth R.S. Thomas oedd yn sefyll ger llaw. Dwedodd yn ddiflas "Biti garw na chawn i roi'n nhraed ynddo fo"!

Wedi cyhoeddi'r bleidlais ar fod yn ranbarth di-niwclear, roedd Gwen a minnau ymhlith y gwirfoddolwyr aeth ag 'arwyddion ffordd' allan i'w gosod ar fannau hanfodol ar y ffin. Roedd David (Robson) wedi gwneud bwrdd gydag arwydd Cymru Ddi-Niwclear arno, i ni ei osod ar Fonc y Waun. Mae arwydd haearn di-fflach *"Croeso i Gymru"* arferol hanner ffordd i fyny, felly dyma glymu ein harwydd di-niwclear wrth hwnnw ac arhosodd yn ei le am gyfnod byr. Cafodd y gyrwyr, yn enwedig y gyrwyr loriau, fodd i fyw yn gwylio dwy wraig oedrannus yn straffaglu ar fin y ffordd yn yr oerfel mawr.

Yn ddiweddarach, dangosodd rhywun gyhoeddiad i ni â llun o'n harwydd Cymru Ddi-niwclear a oedd wedi ymddangos mewn papur-newydd yn Siapan!

*Lib Rowland Hughes*

**heddweithredu:** Efallai fod 18fed Penblwydd Datgan Cymru'n wlad Ddi-niwclear wedi cael ei ddathlu ar Chwefror 23ain, ond dyw hi ddim yn rhy hwyr i ddanfon cerdyn at eich Cynghorydd Sir neu Gadeirydd eich Cyngor Sir i'w llongyfarch ar berthyn i Fforwm yr Ardaloedd Di-niwclear. Os ydych yn byw yn 'siroedd' Conwy, Wrecsam, Blaenau Gwent neu Fynwy, sgrifennwch atyn nhw yn annog eich Cyngor Sir i ymuno â Fforwm yr Ardaloedd Di-niwclear. Am wybodaeth bellach, cysyllter ag CND Cymru neu Nuclear Free Local Authorities, c/o Nuclear Policy & Information Unit, Town Hall, Manceinion M60 2LA (0161) 234 3244 neu Fforwm Ddi-niwclear Cymru, Keith Davies, Cynllunio Argyfwng, Yr Adeilad Trefol, Stryd Llywelyn, Pentre CF41 7XW.



# Dyddiadau Dyddiadur

**Mawrth 24ain Cyfarfod Cyhoeddus Blwyddyn i Ymgyrch Fomio NATO ar Iwgoslafia.** Pwyllgor dros Heddwch yn y Balcanau, cysylltwr Cymru: Steve Bell, 186 Channel View, Caerdydd CF1 7HW (01222) 222978 neu (0171) 275 0164

**Ebrill 3ydd 7pm Cyfarfod Coffa Cyhoeddus i goffáu Henry Richard, Heddychwr Mawr o Gymro a Seneddwr.** Ty'r Arglwyddi, Westminster, Llundain. Rhan o'r Degawd i hyrwyddo Diwylliant o Heddwch heb Drais.
Cadeirydd: Myriel Davies, CCU Prydain. Siaradwyr: David Morris, CND Cymru; Parch. Ben Rees, Lerpwl. Cysyllter â: Bruce Kent (0181) 340 6639

**Ebrill 24ain - Mai 19eg Trafodaethaeth Gwrth-Ymlediad Niwclear (NPT) yn Efrog Newydd** (gweler y stori ar dud. 8 - a gweithredwch!)

**Ebrill 25ain Pumed Penblwydd Datganiad Dileu 2000**
Disgwylir y bydd Dileu 2000 yn cyhoeddi fod ganddo erbyn hyn 2000 o fudiadau yn Rhwydwaith Byd-eang Dileu 2000 er Dileu Arfau Niwclear. Does dim trafodaethau ar gyfer Confensiwn ar Arfau Niwclear wedi cychwyn er gwaethaf galw cyson am hynny gan y gymuned ryngwladol, Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig a'r Senedd Ewropeaidd. Ar ail ddiwrnod y trafodaethau Gwrth-Ymlediad Niwclear yn Efrog Newydd, bydd gweithredwyr yn atgoffa'r cynadleddwyr o'u hoblygiadau i ddiarfogi o dan y Cytundeb hwnnw.

**Ebrill 26ain 14 mlwyddiant damwain Chernobyl: Ffug seremoni efeillio rhwng Hinkley Point a Chernobyl a Chyfarfod Cyhoeddus gyda'r hwyr.** Siaradwyr: Patrick Van Den Buick, Chris Busby a Greenpeace. Manylion gan: Stop Hinkley, Jim Duffy (01984) 632109 neu Val Davey (01460) 240241.

**Mai 6ed Dydd i Bobl Irac** - Apêl Mariam, cysyllter â Trish Meeham (0207) 8725451

**Mai 13eg, 2pm Cyfarfod Cyhoeddus gyda Alan Jones o Dîm Heddwch y Balcanau,** Capel y Graig, Machynlleth, croeso i bawb. (Mae Alan ar gael i siarad mewn digwyddiadau eraill, cysyllter ag Awel Irene (01766) 771100.)

**Mai 18fed-25ain, Trident Ploughshares 2000, Gwersyll yn Aldermaston, Lloegr.** Cysyllter â TP2000: (01324) 880744

**Mai : 11am (dyddiad i'w drefnu) Cyngor CND Cymru,** Ty Cwrdd y Cyfeillion, Temple Street, Llandrindod. Croeso i aelodau a chynrychiolwyr. Am fwy o fanylion, cysyllter â Sarah Isaacs, gweler cysylltiadau.

**Awst 2000 Eisteddfod Genedlaethol Llanelli**
Angen cymorth Cymry Cymraeg (a dysgwyr) ym mhabell CND Cymru. Am fwy o fanylion, cysyllter â Rod Stallard (gweler cysylltiadau)

## Rwyf am ymuno ag CND Cymru

Enw: ____________________

Cyfeiriad: ____________________

Côd post: ____________ Teleffon ____________

Amgaeaf siec/AB am £ ______ yn daladwy i CND Cymru

Pâr cyflogedig: £16; oedolyn: £12. Digyflog, pensiynwyr a ieuenctid: £4. Dychweler i: Aelodaeth CND Cymru, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN

# Cysylltiadau CND Cymru

**Golygydd *heddwch* ac Ymholiadau Cyffredinol:**
Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri SA20 0LR (01550) 750260
heddwch@fdn.co.uk

**Cadeirydd**
David Morris (01792) 206968

**Is-Gadeiryddion:**

**Gogledd Cymru**
Dave Andrews (01978) 310491

**Y Canolbarth**
Olwen Davies (01970) 611994
Rod Stallard (01550) 750260

**De Cymru**
Ray Davies (01222) 889514

**Mwy o wybodaeth, syniadau, neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND agosaf**

**Aelodaeth**
Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN

**Cysylltiadau:**
Rhoda Jones (01766) 762739

**Masnachu**
Jan Henderson (01792) 830330

**Trysorydd**
Jean Bryant, 16 Ty'n y Cymer Close, Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**Gweithwraig Seneddol:**
Sarah Isaacs, Bridgend Cottage, Llangamarch, Powys LD4 4ED

**Cwynion am awyrennau milwrol yn hedfan yn isel: ffoniwch yr MoD (0171) 218 6020**

## Ymddiheuriad




Efallai y cawsoch lythyr yn ddiweddar gan CND Prydeinig yn gofyn i chi adnewyddu eich aelodaeth er bod gennych orchymyn banc rheolaidd i CND Cymru. Carem ymddiheuro am y dryswch. Ar ran rhai aelodau CND Cymru, mae CND Prydeinig yn gweinyddu hen orchmynion banc oedd oll fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 1999. Maent newydd ddechrau defnyddio cronfa ddata aelodaeth newydd soffistigedig a alwodd sylw at y ffaith nad oedd ganddynt rai o'ch manylion banc. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto ac fe gywirwyd ein cofnodion yn unol â hynny. Os cawsoch y fach lythyr, dylid ei anwybyddu.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am barhau i gefnogi'r Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yn ein nod o waredu'r byd o bob arf dinistr torfol.

**heddwch** yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).
Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd. Croeso i sylwadau, llythyron ac erthyglau - cysylltwch â'r golygydd, os gwelwch yn dda.

Golygu a chysodi gan Jill Stallard (01550) 750260 (heddwch@fdn.co.uk)
Cyfieithu gan Siân Edwards (sian@derwen.demon.co.uk)
Argraffwyd gan Redkite Print (01591) 610844 (Redkite@onyxnet.co.uk)
Pacio gan wirfoddolwyr yng Nghaerdydd - i ymuno â'r hapus dyrfa hon, am brynhawn bob rhyw 2-3 mis, cysyllter â Brian Jones (01792) 830330